# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:00**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(121)

**Datganiad Personol – Bethan Jenkins**

Wnaeth Bethan Jenkins datganiad personol.

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.01

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd Cwestiynau 1, 2 ac 11 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd a chafodd cwestiynau 5 a 6 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd – eitem wedi'i symud o 20 Mawrth 2013

Dechreuodd yr eitem am 13.50

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 7 a 9 i 15. Tynnwyd cwestiwn 8 yn ôl.

### 3. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio – eitem wedi'i symud o 20 Mawrth 2013

Dechreuodd yr eitem am 14.28

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 4 a 6 i 12. Cafodd cwestiynau 1 a 2 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd a chafodd cwestiynau 3, 11 ac 8 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd.

Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl. Cafodd cwestiynau 13 i 15 a oedd yn weddill eu gofyn ar ôl y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

**4. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

Dechreuodd yr eitem am 15.02

**Pwynt o Drefn**

Nododd Peter Black Bwynt o Drefn ynghylch yr atebion a roddwyd gan Weinidogion yn ystod y Cwestiynau Llafar ar bortffolios a oedd yn newydd iddynt ac effaith hyn ar allu'r Aelodau i graffu ar waith y Gweinidogion. Gofynnodd i'r Llywydd, Gweinidog Busnes y Llywodraeth a'r Pwyllgor Busnes adolygu'r mater. Dyfarnodd y Llywydd y byddai disgwyl i Aelodau, wrth gyflwyno'u cwestiynau, gael ateb o sylwedd gan y Gweinidog cyfrifol yn ôl yr arfer. Atgoffodd yr Aelodau, fodd bynnag, fod y Gweinidogion yn gyfrifol am eu hatebion eu hunain, ac y dylai'r Gweinidog fod yn bragmatig wrth ateb y cwestiynau llafar hyn ar ôl y newidiadau.

**Cynnig i ethol Aelod i'r Pwyllgor Busnes**

**NNDM5196 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Lesley Griffiths (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Jane Hutt (Llafur Cymru).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013**

Dechreuodd yr eitem am 15.19

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5191 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 yn cael ei gwneud yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Chwefror 2013.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6. Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2011-12

Dechreuodd yr eitem am 15.40

**NDM5189 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2011-12.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'n benodol gasgliad y Prif Arolygydd mai 'presenoldeb yw'r agwedd wannaf ar les yn yr ysgolion o hyd'.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen, a nodwyd gan y Prif Arolygydd, i roi mwy o gefnogaeth i athrawon wrth fynd ati i sicrhau bod safonau'n gwella.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio mwy ar rannu arferion gorau mewn addysg ar gyfer torri'r cylch tlodi ac anfantais mewn ysgolion.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y canfyddiadau yn yr adroddiad fod y gyfran o ysgolion a gafodd eu harolygu yn 2011-12 y barnwyd eu bod yn rhagorol neu'n dda yn is na'r flwyddyn flaenorol, gyda mwy o ysgolion uwchradd yn y pegynau perfformiad rhagorol neu anfoddhaol.

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau a roddwyd i ysgolion er mwyn sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu'r cyfraddau uchel o absenoldeb ymhlith disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, er mwyn codi lefelau cyflawniad disgyblion o gefndiroedd tlotach gymaint â phosibl.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 11 | 28 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Estyn yn adrodd am ba mor effeithiol y mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a disgyblion o gefndiroedd mwy cefnog.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 20 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder bod 54 y cant o ysgolion uwchradd a 48 y cant o ysgolion cynradd wedi cael eu nodi ar gyfer ymweliadau dilynol, sy’n fwy na’r llynedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu meincnodau a thargedau cenedlaethol i fonitro'r cynnydd a wneir i fynd i’r afael â’r bwlch rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 10 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw’r 'disgyblion mwy galluog a thalentog yn cyflawni gystal yng Nghymru ag yn Lloegr', yn ôl yr adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi cryn bryder bod angen gwella safonau llythrennedd dros hanner yr ysgolion cynradd a’r ysgolion uwchradd yng Nghymru, yn ôl yr adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth ganfyddiadau Estyn sy’n awgrymu bod 'perfformiad addysgu sydd o safon gyffredin' yn bodoli.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 14 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 11.**

**Gwelliant 12 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog y Gweinidog i egluro sut y gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar yr adroddiad hwn gan gorff hyd braich annibynnol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 43 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 12.**

**Gwelliant 13 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r methiannau yn system addysgol Cymru a nodwyd gan Estyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 13:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 37 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 13.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5189 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2011-12.

Yn nodi'n benodol gasgliad y Prif Arolygydd mai ‘presenoldeb yw’r agwedd wannaf ar les yn yr ysgolion o hyd’.

Yn nodi'r angen, a nodwyd gan y Prif Arolygydd, i roi mwy o gefnogaeth i athrawon wrth fynd ati i sicrhau bod safonau’n gwella.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio mwy ar rannu arferion gorau mewn addysg ar gyfer torri’r cylch tlodi ac anfantais mewn ysgolion.

Yn gresynu wrth y canfyddiadau yn yr adroddiad fod y gyfran o ysgolion a gafodd eu harolygu yn 2011-12 y barnwyd eu bod yn rhagorol neu’n dda yn is na’r flwyddyn flaenorol, gyda mwy o ysgolion uwchradd yn y pegynau perfformiad rhagorol neu anfoddhaol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Estyn yn adrodd am ba mor effeithiol y mae’r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i leihau’r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a disgyblion o gefndiroedd mwy cefnog.

Yn mynegi pryder bod 54 y cant o ysgolion uwchradd a 48 y cant o ysgolion cynradd wedi cael eu nodi ar gyfer ymweliadau dilynol, sy’n fwy na’r llynedd.

Yn gresynu wrth ganfyddiadau Estyn sy’n awgrymu bod 'perfformiad addysgu sydd o safon gyffredin' yn bodoli.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 11 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

## 7. Dadl: Llais y Cleifion - Cryfhau Rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned

Dechreuodd yr eitem am 16.24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5193 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru i weddnewid, cryfhau a grymuso Cynghorau Iechyd Cymuned i ymgymryd â’u rôl yn y GIG yn yr unfed ganrif ar hugain.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'i weddnewid, cryfhau a grymuso Cynghorau Iechyd Cymuned' a rhoi yn ei le 'ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned er mwyn eu cynorthwyo'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 5 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai aelodau'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned sydd yn y sefyllfa orau i benodi eu Cadeirydd, yn hytrach na Gweinidogion Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 1 | 37 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'r canllawiau ynghylch rôl Cynghorau Iechyd Cymuned i fod yn 'llais i gleifion' yn y broses o ad-drefnu gwasanaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn llais annibynnol i gleifion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i Gynghorau Iechyd Cymuned chwarae rhan allweddol wrth fod yn llais cryf i gleifion a'r cyhoedd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael y cyllid a'r hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses o ad-drefnu GIG Cymru yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu Safonau Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Gymuned, yn seiliedig ar fodel yr Alban, er mwyn gwella rôl Cynghorau Iechyd Cymuned o ran sicrhau bod safbwyntiau'r cyhoedd yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol am ein GIG.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 39 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5193 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru i weddnewid, cryfhau a grymuso Cynghorau Iechyd Cymuned i ymgymryd â'u rôl yn y GIG yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn llais annibynnol i gleifion.

Yn credu bod yn rhaid i Gynghorau Iechyd Cymuned chwarae rhan allweddol wrth fod yn llais cryf i gleifion a'r cyhoedd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cynghorau Iechyd Cymuned yn cael y cyllid a'r hyfforddiant angenrheidiol er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses o ad-drefnu GIG Cymru yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 11 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

### 8. Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) – eitem wedi'i symud o 20 Mawrth 2013

Dechreuodd yr eitem am 17.15

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5192 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru).

Cafodd y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol eu gosod gerbron y Cynulliad ar 3 Rhagfyr 2012.

Cafodd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) ei osod gerbron y Cynulliad ar 7 Mawrth 2013.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 11 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

### 9. Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) – eitem wedi'i symud o 20 Mawrth 2013

Dechreuodd yr eitem am 18.11

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5190 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 11 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.12

Daeth y cyfarfod i ben am 18:21

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 20 Mawrth 2013**